# COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANILAR
a gynhaliwyd ar y 8 Ionawr 2019
am 8.00y.h.

**PRESENNOL:- Cynghorwyr:- Rowland Jones, Caredig Jones, Ada Evans, Dewi Rattray, Meirion Davies, Ann Tudor.**

**ABSENOLDEBAU:** Dylan Edwards, Richard Davies, John Davies, Meic Francis.

Rhoddwyd croeso cynnes i gyfarfod Mis Ionawr, cyfarfod 1sf 2019, gan y Cadeirydd Caredig Jones. Flin oedd clywed am golled y Cyng. Meirion Davies a'r teulu ar golled eu Tad yng Ngyfraith yn ddiweddar. Estynwyd cydymdeimlad atynt.

Ar nodyn hapusach, hyfryd oedd gweld y Cyng. Rowland Jones yn ôl gyda ni miss yma!

Dachraeodd y cyfarfod 8 o'r gloch. Darllenwyd cofnodion Mis Rhagfyr, cynigwyd eu bod yn gywir gan y Cyng. Ada Evansnac fe eiliwyd gan y Cyng. Ann Tudor.

18/1061 - MATERION YN CODI

1. Nid oedd unrhyw materion yn codi

**18/1062 - LLYTHYRON**

1. Llythyr wrth Wasanaeth Tan ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru ynglŷn â manylion cronfa data
2. Llythyr wrth Swyddfa'r Eiteddfod a manylion y cronfeydd sydd eu hangen i gynnal yr Eisteddfod
3. Gorchymyn Gwyro Llwybr Cyhoeddus 2008 - Llwybr Troed 21/39 Llanilar

**18/1063 – ARIANNOL**

1. Cyflog y Clerc ar gyfer Miss Ionawr; £133.26. Cynigiwyd i'w dalu gan y Cyng. Ann Tudor ac eiliwyd gan y Cyng.Dewi Rattray
2. Precept 2019-2020. Trafodwyd gan edrych dros gwariant 2018-2019 ac hefyd drafod unrhyw gosiau ychwanegol fydd angen ar gyfer flwyddyn 2019-20 (goleuadau'r pentref a.y.y.b.) Fe benderfynnwyd ar y swm o £7400. Cynigiwyd i'w dalu gan y Cyng. Rowland Jones ac eiliwyd gan y Cyng.Dewi Rattray. Roedd y Cynghorwyr i gyd yn gytun.
3. Anfoneb wrth John Burns-Davies ar gyfer gwaghau biniau'r canolfan cymuned. Cyfanswm £120.00. Cynigiwyd i'w dalu gan y Cyng. Ada Evans ac eiliwyd gan y Cyng.Dewi Rattray

**18/1064 – CYNLLUNIO**

Nid oes unrhyw cais wedi dderbyn

**18/1065 - UNRHYW FATER ARALL**

1. Ofynnwyd i'r Clerc ysgrifennu at yr adran priffyrdd ynglŷn â'r arwyddion 20mph sydd yn y pentref. Mae llawer ohonynt wedi eu lleoli yng nghanol y plamant ac yn rhwystro pobol a phramiau neu gadeiriau olwyn i basio heb orfod mynd ar y ffordd.
2. Ni does ymateb wedi eu derbyn wrth y Cyngor Sir ynglŷn â chyflwr y Llwybyr Beicio Ystwyth…ofynnwyd i'r clerc ysgrifennu unwaith eto.
3. A oes bosib cael arwyddion 'Rhowch eich baw Ci yn y bin'. Mae'n warthus faint o faw cŵn sydd ar balmentydd y pentref a'r llwybr beicio. Rhaid gwneud rhywbeth ynghylch a hyn.

4. Nodwyd for sietyn ar y palmant rhwng y garej a phont y pentref yn achosi anhawster i basio ar y palmant gan eu bod wedi gordyfu. Mi fydd y clerc yn edrych i mewn i hyn yn bellach.
5. Ofynnwyd i'r Clerc edrych i mewn i gostau cysylltu'r lamp glau wrth ymyl fynedfa faes parcio'r Falcon.

Orffennwyd y cyfarfod am 8y.h.